# INTERNATIONAL DEBT

Between them, the world's 52 poorest countries have accrued debts of $375 billion to rich countries (for details about the creditors, see *Different Forms of Debt* below). The World Bank and IMF have included 42 countries in the **Heavily Indebted Poor Countries (HIPC)** scheme, which aims to cancel 65% of the debts. But only 15 HIPCs have reached this stage, having received $46 billion of debt cancellation. The majority of HIPCs are in Africa, with others in Latin America and Asia. They are home to 600 million people who earn, on average, less than $1 a day – yet their governments pay the equivalent of $15 per person, per year in debt.



The debts originated in the early 1970s, when Western banks lent huge sums, at a low interest rate, to underdeveloped countries. The money was intended either to repay previous debts or to improve living standards. However, some countries' development projects did not work, or the money was used to buy arms to keep oppressive governments in power. In the mid 1970s, two things happened: prices for crops produced by developing countries (e.g. coffee and cotton) fell, and interest rates began to rise sharply. This meant that indebted countries could no longer afford to repay debts – in fact, they had to borrow more money simply to repay the interest on their loans.

Creditors, especially the IMF, then began to restructure debt under **Structural Adjustment Programmes**, which allow countries to borrow more money in return for strict economic reforms. However, in many cases these have worsened levels of poverty. Most HIPCs face additional challenges such as disease, poor sanitation or conflict. Yet for every £1 received in international aid, these countries can pay back as much as £3 to service debts. In Zambia, annual debt repayments cost more than the government's education budget.

# DYLED RYNGWLADOL

Mae'r 52 gwlad dlotaf yn y byd, rhyngddynt, wedi cronni dyledion o $375 biliwn i wledydd cyfoethog (gweler *Gwahanol Fathau o Ddyled* isod am fanylion am y credydwyr). Mae Banc y Byd a'r IMF wedi cynnwys 42 o wledydd yn y cynllun **Gwledydd Tlawd mewn Dyled Fawr** (Heavily Indebted Poor Countries), sy'n anelu at ddileu 65% o'r dyledion. Ond dim ond 15 o'r gwledydd hyn sydd wedi cyrraedd y cam hwn a gweld dileu gwerth $46 biliwn o'u dyled. Yn Affrica mae'r rhan fwyaf o'r gwledydd hyn, gydag eraill yn America Ladin ac Asia. Maent yn gartref i 600 miliwn o bobl sy'n ennill, ar gyfartaledd, llai na $1 y dydd – ac eto mae eu llywodraethau'n talu swm sy'n cyfateb i $15 y pen, y flwyddyn, o ddyled.

Dechreuodd y dyledion gronni ar ddechrau'r 1970au, pan roddodd banciau o'r Gorllewin fenthyg symiau anferth o arian, ar gyfradd llog isel, i wledydd annatblygiedig. Y bwriad oedd y byddai'r arian naill ai'n ad-dalu dyledion oedd wedi cronni eisoes, neu yn gwella safonau byw. Ond methodd y prosiectau datblygu yn rhai o'r gwledydd, neu defnyddiwyd yr arian i brynu arfau i gadw llywodraethau gorthrymus mewn grym. Yng nghanol y 1970au, digwyddodd dau beth: syrthiodd y prisiau ar gyfer cnydau a gynhyrchid gan wledydd oedd yn datblygu (e.e. coffi a chotwm) a dechreuodd cyfraddau llog godi yn llym. Golygai hyn nad oedd y gwledydd oedd mewn dyled yn medru fforddio ad-dalu'r dyledion bellach – yn wir, bu'n rhaid iddynt gael benthyg rhagor o arian i ad-dalu'r llog ar y benthyciadau oedd ganddynt yn barod.

Wedi hynny dechreuodd y credydwyr, yn arbennig yr IMF, ailstrwythuro dyled o dan **Raglenni Addasu Strwythurol**, sy'n caniatáu i wledydd gael benthyg rhagor o arian yn gyfnewid am ddiwygiadau economaidd llym. Ond mewn sawl achos mae'r rhain wedi arwain at waeth dlodi. Mae'r rhan fwyaf o Wledydd Tlawd mewn Dyled Fawr (GTDFau) yn wynebu problemau ychwanegol fel clefydau, diffyg glanweithdra neu ryfeloedd. Ac eto am bob £1 a roddir mewn nawdd rhyngwladol, mae rhai o'r gwledydd hyn yn ad-dalu cymaint â £3 i fwydo dyledion. Yn Sambia, mae'r ad-daliadau blynyddol yn costio'n ddrutach na chyllideb addysg y llywodraeth.

## Different forms of debt

There are three major forms of international debt:

(1) **Multilateral debt** owed to powerful financial institutions
(45% of HIPC debt):

- **World Bank** – formed of 184 countries, with 40% of votes resting with the world's 7 richest economies (USA, UK, Japan, Germany, France, Canada and Italy). Lends money to alleviate poverty, on the condition that countries change economic and social policies.
- **International Monetary Fund** – similar structure to World Bank. Issues loans to help countries restructure their economies.
- **Other banks**, such as the African Development Bank and Arab Development Bank.

(2) **Bilateral debt** owed to individual donor country governments
(45% of HIPC debt). Creditors include:

- **The Paris Club**, an informal organisation of governments to which 77 developing countries are indebted.
- **Government-backed arms companies**, e.g. BAE Systems, with the sale of a military air traffic control system to Tanzania in 2002.

(3) **Commercial debt** owed to international banks like Citibank
(10% of HIPC debt).

## Gwahanol fathau o ddyled

Mae tair prif ffurf ar ddyled ryngwladol:

(1) **Dyled amlochrog** i sefydliadau ariannol grymus
(45% o ddyled y GTDFau ):

- **Banc y Byd** – sy'n cynnwys 184 o wledydd, gyda 40% o'r pleidleisiau'n gorwedd gyda 7 economi gyfoethocaf y byd (UDA, DG, Siapan, yr Almaen, Ffrainc, Canada a'r Eidal). Mae'n rhoi benthyg arian i liniaru tlodi, ar yr amod bod gwledydd yn newid eu polisïau economaidd a chymdeithasol.
- **Y Gronfa Ariannol Ryngwladol** – strwythur tebyg i strwythur Banc y Byd. Mae'n rhoi benthyciadau i helpu gwledydd i ailstrwythuro'r economi.
- **Banciau eraill**, fel Banc Datblygu Affrica a'r Banc Datblygu Arabaidd.

(2) **Dyled ddwyochrog**. Ad-delir hon i lywodraethau'r gwledydd unigol sy'n rhoi yr arian (45% o ddyled GTDFau). Mae'r credydwyr yn cynnwys:

- **Clwb Paris**, cymdeithas anffurfiol o lywodraethau y mae 77 o wledydd sy'n datblygu mewn dyled iddi.
- **Cwmnïau arfau â chefnogaeth llywodraethau**, e.e. BAE Systems, a werthodd system rheoli cludiant awyr milwrol i Tansanïa yn 2002.

(3) **Dyled fasnachol** a ad-delir i fanciau rhyngwladol fel Citibank
(10% o ddyled GTDFau).

## What can be done?

Rich countries have already taken a number of steps towards reducing poor countries' debt burden. The UK, for example, has cancelled 100% of the debts owed to it by some HIPCs; and, following the south-east Asian tsunami in December 2004, the Paris Club agreed to freeze (but not cancel) the debts of the countries worst affected by the disaster.

Anti-debt campaigners believe that such steps do not go far enough. So far, little more than 10% of the total debt owed by the world's poorest countries has been cancelled. This is despite high-profile promises made by creditors in recent years, such as announcements by seven of the G8 countries in 1999 that they would cancel 100% of their bilateral debt. Only one country, Uganda, has received the full amount of debt cancellation promised, leading to 2.2 million people gaining access to clean water. This demonstrates the kind of social progress that can be made following debt relief.

Campaigners such as the Jubilee Debt Campaign argue that rich countries, and the institutions they control such as the World Bank and IMF, should cancel all the unpayable debts of the poorest countries, without depriving them of the possibility of new loans. In addition, they call for those institutions to stop asking poor debtor countries to liberalise their economies as a condition for getting debt relief (see *Trade Justice* section).

## Beth ellir ei wneud?

Mae'r gwledydd cyfoethog eisoes wedi cymryd nifer o gamau tuag at ostwng baich dyled y gwledydd tlawd. Mae'r DG, er enghraifft, wedi diddymu 100% o'r dyledion yr oedd gofyn i rai GTDMau eu had-dalu; ac, yn sgil y tsunami yn ne-ddwyrain Asia ym mis Rhagfyr 2004, cytunodd Clwb Paris i rewi (ond nid i ddiddymu) dyledion y gwledydd a gafodd eu heffeithio waethaf gan y drychineb.

Mae ymgyrchwyr gwrth-ddyled yn credu nad yw camau o'r fath yn mynd yn ddigon pell. Hyd yma, dim ond mymryn yn fwy na 10% o gyfanswm dyledion gwledydd tlotaf y byd gafodd ei ddiddymu. Dyma'r sefyllfa er gwaethaf addewidion proffil-uchel a wnaed gan gredydwyr dros y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft cyhoeddiadau gan saith o blith y gwledydd G8 ym 1999 y byddent yn diddymu 100% o'u dyledion dwyochrog. Dim ond un wlad, Wganda, a welodd ddiddymu yr holl ddyledion fel yr addawyd, gan olygu bod 2.2 miliwn o bobl wedi cael dŵr glân. Dyma enghraifft o'r math o gynnydd cymdeithasol a all ddod yn sgil cymorth talu dyledion.

Mae ymgyrchwyr fel Ymgyrch Ddyled y Jiwbilî yn dadlau y dylai gwledydd cyfoethog, a'r sefydliadau y maen nhw'n eu rheoli, fel Banc y Byd a'r IMF, ddiddymu'r holl ddyledion nad oes modd i'r gwledydd tlotaf eu had-dalu, heb wrthod y cyfle iddynt godi benthyciadau newydd. Maen nhw hefyd yn galw ar i'r sefydliadau hynny roi'r gorau i ofyn i wledydd tlawd ryddfreinio eu heconomïau yn amod ar gyfer cael cymorth i dalu dyledion (gweler yr adran *Cyfiawnder mewn Masnach*).

# MAKEPOVERTYHISTORY

In 2005, the UK chairs the G8 group of powerful industrialised nations. It will also chair the European Union (EU) during the second half of the year. Many people see this as a great opportunity for Britain to influence development in poor countries. **MAKE**POVERTY**HISTORY** is an alliance of UK charities, trade unions, campaigning groups and celebrities supporting the fight against poverty and injustice. The campaign highlights three issues related to poverty: **trade justice**, **international debt** and **international aid**. Each is dealt with as part of this poster.

The United Nations (UN) defines a person living in extreme poverty as someone living on less than US$1 per day. Its Millennium Development Goals call for reducing the proportion of people living in such conditions to half of the 1990 level by 2015. Some progress has been made towards this goal, but 1.1 billion people – more than 1 in 6 of the world's population, or almost 400 times that of Wales – still live in extreme poverty. 3 billion people – half the world's population – live on less than $2 per day.

Governments in countries which experience poverty may be unable to provide adequate services such as healthcare, clean water, education, transport and democratic participation. Their people are often poorly nourished, more vulnerable to illness and natural disasters, and unable to earn more than a subsistence wage.

# ROWNDERFYNARDLODI

Yn 2005, y DG sy'n cadeirio'r G8, grŵp o wledydd diwydiannol grymus. Bydd hefyd yn gadeirydd ar yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae llawer yn gweld hwn yn gyfle gwych i Brydain ddylanwadu ar ddatblygu yn y gwledydd tlawd. Cynghrair o elusennau, undebau llafur, grwpiau ymgyrchu ac enwogion o'r DG sy'n cefnogi'r frwydr yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder yw RHOWN**DERFYN**AR**DLODI**. Mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at dri phwnc sydd ynghlwm wrth dlodi: **masnach deg**, **dyled ryngwladol** a **chymorth rhyngwladol**. Rydym yn sôn am bob un o'r rhain ar y poster hwn.

Mae'r Cenhedloedd Unedig (CU) yn diffinio y tlotaf o'r tlawd fel rhywun sy'n byw ar lai na UDA$1 y dydd. Mae eu Hamcanion Datblygu ar gyfer y Mileniwm yn galw am ostyngiad yng nghyfradd y bobl sy'n byw dan y fath amgylchiadau at hanner lefel 1990 erbyn 2015. Cafwyd ambell ei gam tuag at y nod, ond mae 1.1 biliwn o bobl – dros 1 ym mhob 6 o boblogaeth y byd, neu bron i 400 gwaith poblogaeth Cymru – yn dal i fyw mewn tlodi dybryd. Mae 3 biliwn o bobl – hanner poblogaeth y byd – yn byw ar lai na $2 y dydd.

Nid yw llywodraethau gwledydd tlawd bob amser yn medru darparu gwasanaethau digonol, fel gofal iechyd, dŵr glân, addysg, cludiant a chyfranogaeth ddemocrataidd. Yn aml mae eu pobl yn brin o fwyd maethlon, yn fwy tebygol o ddioddef rhag salwch a thrychinebau naturiol, ac yn methu gwneud mwy na chrafu byw.

# TRADE JUSTICE

The trade justice movement calls for a system of international trade that is fair to all countries. Campaigners say that the current rules governing international trade need to be reformed, as these tend to favour powerful countries and their businesses. To understand this, it is necessary to explain some key terms.

- **Subsidies** are payments made by governments to producers in their own countries, so that they can sell their goods at a lower price. For example, the United States government pays over $10 billion to its corn growers each year.
- **Tariffs** are charges made by governments on imported goods. For example, importers of fruit juice into the EU are required to pay a tariff of 37% of the product's value. Tariffs are used by countries to protect their own producers against the possibility of cheaper imports 'flooding' their markets.
- **Quotas** limit the quantity of certain goods that can be imported into a country.
- **Free trade** is a system that would enable countries to trade in an unrestricted way. Under it, all countries would have equal access to each others' markets, and no-one could impose tariffs or pay subsidies to farmers. The **World Trade Organization (WTO)** is an international body that promotes free trade agreements.
- The **World Bank** and **International Monetary Fund (IMF)** often require countries that are in debt to move towards a free trade system. See *International Debt* section for more information about these bodies.

## An unequal system



One demand of trade justice campaigners is that rich countries stop paying subsidies to their own farmers or production companies. Subsidies enable their goods to be sold at below the cost of producing them, allowing them to be "dumped" onto markets in poorer countries. For instance, excess milk from Wales has been sold in Jamaica; this introduces an unfair element of competition.

But free trade can also allow rich countries to gain unfair access to developing countries' markets. In 1999 the Bolivian government, under pressure from the World Bank, sold the Cochabamba region's water supply to foreign investors. Water bills soon rose to double their previous rate, and the collection of rainwater was banned. Civil unrest followed, martial law was declared, and water supplies were eventually renationalised.

Trade justice campaigners feel that necessities such as water should not be bargained away as part of trade liberalisation. They believe that developing countries should be able to protect their industries and agriculture through tariffs, quotas or other measures, in the same way that richer countries do at present. Instead of being pressurised by the World Bank, the IMF and the EU to open their markets, poorer countries are demanding a 'level playing field' on which they are equally able to protect their economies. At international trade discussions in 2003, Brazil, China and India led a group of developing countries which successfully blocked further liberalisation steps demanded by the EU and USA.

# CYFIAWNDER MEWN MASNACH

Mae'r mudiad cyfiawnder mewn masnach yn galw am system o fasnachu rhyngwladol sydd yn deg i bob gwlad. Dywed yr ymgyrchwyr bod angen diwygio'r rheolau presennol sy'n llywio'r fasnach rhwng gwledydd, gan eu bod yn dueddol o ffafrio gwledydd pwerus a'u busnesau. I ddeall hyn, mae gofyn egluro rhai termau allweddol.

- **Cymorthdaliadau:** taliadau a wneir gan lywodraethau i gynhyrchwyr yn eu gwledydd eu hunain, fel y gallant werthu eu nwyddau am brisiau is. Er enghraifft, mae llywodraeth UDA yn talu dros $10 biliwn i'w ffermwyr ŷd bob blwyddyn.
- **Tollau:** codir y taliadau hyn gan lywodraethau ar nwyddau sy'n cael eu mewnforio. Er enghraifft, mae gofyn i bobl sy'n mewnforio sudd ffrwythau i'r UE dalu toll o 37% o werth y cynnyrch. Defnyddir tollau gan wledydd i ddiogelu eu cynhyrchwyr eu hunain rhag y posibilrwydd y bydd nwyddau rhatach o dramor yn 'gorlifo' eu marchnadoedd.
- **Cwotâu:** mae'r rhain yn cyfyngu ar y nifer o rai nwyddau arbennig y caniateir eu mewnforio i wlad arbennig.
- **Masnach rydd:** dyma system a fyddai'n caniatáu i wledydd fasnachu heb unrhyw gyfyngiadau. O dan y system hon, byddai gan bob gwlad rwydd hynt ar farchnadoedd ei gilydd, a châi neb osod tollau na thalu cymorthdaliadau i ffermwyr. Mae **Corff Masnach y Byd** (World Trade Organization) yn gorff rhyngwladol sy'n hyrwyddo cytundebau masnachu rhydd.
- Mae **Banc y Byd (World Bank)** a'r **Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF)** yn aml yn mynnu bod gwledydd sydd mewn dyled yn symud tuag at system masnach rydd. Gweler yr adran *Dyled Ryngwladol* am ragor o wybodaeth am y cyrff hyn.



## System annheg

Un o alwadau'r ymgyrchwyr dros cyfiawnder mewn masnach yw bod y gwledydd cyfoethog yn rhoi'r gorau i dalu cymorthdaliadau i'w ffermwyr a'u cwmnïau cynhyrchu eu hunain. Mae cymorthdaliadau'n golygu bod modd gwerthu eu nwyddau am bris is na'r gost o'u cynhyrchu, fel bod modd eu "gwaredu" ar farchnadoedd mewn gwledydd tlotach. Er enghraifft, gwerthwyd llaeth parod o Gymru yn Jamaica; mae hyn yn cyflwyno elfen o gystadleuaeth annheg.

Ond gall masnach rydd hefyd ganiatáu i wledydd cyfoethog fanteisio'n annheg ar farchnadoedd gwledydd sy'n datblygu. Ym 1999, o dan bwysau gan Fanc y Byd, gwerthodd llywodraeth Bolifia gyflenwad dŵr rhanbarth Cochabamba i fuddsoddwyr tramor. Cyn bo hir, roedd y biliau dŵr wedi dyblu, a gwaharddwyd y bobl rhag casglu dŵr glaw. Cafwyd terfysg cyhoeddus, cyflwynwyd rheolaeth filwrol, ac yn y pen draw ailwladolwyd y cyflenwad dŵr.

Mae ymgyrchwyr dros cyfiawnder mewn masnach gyfiawn yn teimlo na ddylid gwerthu pethau angenrheidiol fel dŵr am fargen wrth ryddfreinio'r farchnad. Credant y dylai bod modd i wledydd sy'n datblygu amddiffyn eu diwydiannau a'u hamaethyddiaeth trwy dollau, cwotâu neu fesurau eraill, yn yr un ffordd ag y mae'r gwledydd mwy cyfoethog yn ei wneud ar hyn o bryd. Yn hytrach na bod dan bwysau gan Fanc y Byd, y Gronfa Ariannol Ryngwladol a'r UE i agor eu marchnadoedd, mae gwledydd tlawd yn galw am degwch: sefyllfa lle y gallant hwy, hefyd, amddiffyn economi eu gwledydd. Mewn trafodaethau rhyngwladol ar fasnach yn 2003, arweiniodd Brasil, Tsieina ac India grŵp o wledydd sy'n datblygu a lwyddodd i wrthod camau pellach at ryddfreinio y bu'r UE ac UDA yn galw amdanynt.

# INTERNATIONAL AID

Developed countries currently donate about $50 billion to poorer countries each year as aid. Often working in partnership with UN agencies and non-governmental organisations, recipients work towards poverty reduction, using the money for projects such as:

- Providing free primary school education
- Immunising children against common diseases and reducing the spread of HIV/AIDS
- Establishing water and sanitation facilities
- Resolving conflict
- Helping governments to be open and efficient

In addition, **emergency relief** is provided following natural disasters (e.g. earthquakes and floods) and conflict. This helps to meet people's immediate survival needs such as water, food, shelter and medicine.

# CYMORTH RHYNGWLADOL

Ar hyn o bryd mae'r gwledydd cyfoethog yn rhoi rhyw $50 biliwn o nawdd i wledydd tlotach bob blwyddyn. Mae'r rhai sy'n derbyn yr arian yn gweithio tuag at leihau tlodi, gan gydweithio'n aml ag asiantaethau'r CU a chyrff anllywodraethol. Maen nhw'n defnyddio'r arian ar gyfer prosiectau fel:

- Darparu addysg gynradd yn rhad ac am ddim
- Brechu plant yn erbyn heintiau cyffredin a cheisio rhwystro HIV/AIDS rhag lledaenu
- Trefnu dŵr a charthffosiaeth
- Datrys gwrthdaro
- Helpu llywodraethau i fod yn agored ac effeithlon

Yn ogystal â hyn, rhoddir **cymorth brys** pan ddigwydd trychinebau naturiol (e.e. daeargrynfeydd a llifogydd) a gwrthdaro. Mae hyn yn gymorth i bobl oroesi trwy gwrdd â'u hanghenion pwysicaf fel dŵr, bwyd, lloches a moddion yn y fan a'r lle.

## How much is needed?

In 1970, the 22 rich countries belonging to the Organization for Economic Cooperation and Development (OECD) agreed to give 0.7% of their national income in international aid. Despite this figure being reaffirmed by the UN in 2002, only five countries have met the target: Denmark, Luxembourg, the Netherlands, Norway and Sweden. Six others have committed to reach the target by 2015: Belgium, Finland, France, Ireland, Spain and the UK. The current average given by OECD countries is 0.39%, but across the seven wealthiest countries it is only 0.19%.



Campaigners are calling for all donors to fulfil their promises. Meeting the 0.7% target would ensure additional aid of at least $40 billion per year. To put this amount into perspective, here are examples of the cost of some essential requirements:

- **$10 billion** per year would ensure that all the world's children could attend primary school. Currently, 125 million children do not attend school.
- **$30 billion** per year would provide for the world's clean water and sanitation needs.
- **$9 billion** per year would pay for healthcare and educational programmes needed for the global fight against HIV/AIDS.

## Faint o arian sydd ei angen?

Ym 1970, cytunodd y 22 o wledydd cyfoethog oedd yn perthyn i'r Gyfundrefn dros Gyd-weithio a Datblygu Economaidd (Organization for Economic Cooperation and Development) 0.7% o'u hincwm cenedlaethol ar ffurf cymorth rhyngwladol. Er i'r ffigwr yma gael ei gadarnhau o'r newydd gan y CU yn 2002, dim ond pum gwlad sydd wedi cwrdd â'r targed: Denmarc, Lwcsembwrg, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden. Mae chwech o wledydd eraill wedi ymrwymo i gwrdd â'r targed erbyn 2015: gwlad Belg, y Ffindir, Ffrainc, Iwerddon, Sbaen a'r DG. Ar hyn o bryd, 0.39% a roddir ar gyfartaledd gan wledydd y Gyfundrefn, ond dim ond 0.19% ar gyfartaledd gan y saith gwlad gyfoethocaf.

Mae ymgyrchwyr yn galw ar yr holl roddwyr i gywiro eu haddewidion. Byddai cwrdd â'r targed o 0.7% yn sicrhau nawdd ychwanegol o $40 biliwn y flwyddyn, o leiaf. I roi'r swm hwn yn ei gyd-destun, dyma rai enghreifftiau o gost ambell ei beth sydd ei angen:

- **$10 biliwn** y flwyddyn: byddai hyn yn sicrhau y gallai holl blant y byd gael addysg gynradd. Ar hyn o bryd, mae 125 miliwn o blant sydd ddim yn mynd i'r ysgol.
- **$30 biliwn** y flwyddyn: byddai hyn yn darparu anghenion yr holl fyd o ran dŵr glân a charthffosiaeth.
- **$9 biliwn** y flwyddyn: byddai hyn yn talu am y rhaglenni addysgol a gofal iechyd sydd eu hangen yn y frwydr fydeang yn erbyn HIV/AIDS.

## Improving aid

Many people say that increasing the amount of available aid is not the whole solution: the quality of aid should also improve. First, not enough aid is directed towards the things that poor communities most require, such as healthcare and education. Second, poor countries should not have to promise things which may put them at a disadvantage: there is much criticism of the giving of **tied aid**, which requires recipients to promise economic changes such as privatising or deregulating their services, or opening up their markets to foreign companies. Third, aid needs to be made more predictable (so that recipients can plan more efficiently) and should be used more effectively by governments once they have received it.

## Gwell cymorth

Mae llawer yn dweud nad yw cynyddu maint y nawdd sydd ar gael yn datrys y broblem yn llwyr: dylid hefyd wella safon y nawdd. Yn y lle cyntaf, nid oes digon o arian yn cael ei gyfeirio at y pethau y mae fwyaf eu hangen ar gymunedau tlawd, fel gofal iechyd ac addysg. Yn ail, ni ddylai gwledydd tlawd orfod addo pethau a allai eu rhoi dan anfantais: mae yna lawer o feirniadu ar yr arfer o roi **cymhorthdal amodol**, sy'n mynnu bod y derbynwyr yn addo gwneud newidiadau economaidd fel preifateiddio neu ddadreoleiddio eu gwasanaethau, neu agor eu marchnadoedd i gwmnïau tramor. Yn drydydd, mae angen i'r cymhorthdal fod yn fwy cyson (fel y gall y derbynwyr gynllunio'n fwy effeithlon) a dylai gael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon gan lywodraethau ar ôl iddyn nhw ei dderbyn.

# WEB LINKS / DOLENNI GWE

| | |
|---|---|
| Uwchgynhadledd 2005 G8 Summit | www.perthshireg8.com |
| ActionAid | www.actionaid.org |
| European Union / Undeb Ewropeaidd | www.europa.eu.int |
| Global Issues (poverty section) | www.globalissues.org/TradeRelated/Poverty.asp |
| International Monetary Fund / Y Gronfa Ariannol Ryngwladol | www.imf.org |
| **MAKE**POVERTY**HISTORY** / RHOWN**DERFYN**AR**DLODI** | www.makepovertyhistory.org |
| NetAid | www.netaid.org |
| Organization for Economic Cooperation and Development / Y Gyfundrefn dros Gyd-weithio a Datblygu Economaidd | www.oecd.org |
| Oxfam | www.oxfam.org.uk |
| Tobin Tax campaign / Ymgyrch Treth Tobin | www.tobintax.org.uk |
| UK Treasury / Trysorlys y DG | www.hm-treasury.gov.uk |
| UK Department for International Development / Adran Datblygu Rhyngwladol y DG | www.dfid.gov.uk |
| United Nations Children's Fund / Cronfa Blant y Cenhedloedd Unedig | www.unicef.org |
| United Nations Development Fund / Cronfa Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig | www.undp.org |
| World Bank / Banc y Byd | www.worldbank.org |
| World Trade Organization / Corff Masnach y Byd | www.wto.org |

## OTHER SOURCES / FFYNONELLAU ERAILL:

Associated Press, Debt and Development Coalition Ireland, The Guardian, OECD, Presbyterian Church International Health Ministries Office, Wikipedia, www.globalissues.org

www.cewc-cymru.org.uk

FFÔN/TEL 029 2022 8549 FFACS/FAX 029 2064 0333 E-BOST/E-MAIL cewc@wcia.org.uk CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH/TEMPLE OF PEACE • PARC CATHAYS/CATHAYS PARK • CAERDYDD/CARDIFF • CF10 3AP